

Mae iechyd a lles y cyhoedd, gwirfoddolwyr a staff yn hollbwysig i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac felly rydyn ni wedi bod yn cadw llygad manwl ar gyngor y llywodraeth fel ymateb i'r achosion o goronafeirws.

Yn ystod y dyddiau diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gwerthuso'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu sy'n cynnwys cyswllt cymdeithasol ac yn gwneud penderfyniadau doeth am y rhain o ystyried y sefyllfa bresennol rydyn ni i gyd ynddi.

O ddydd Mawrth 17 Mawrth ymlaen, yn anffodus, rhaid i ni roi gwybod i chi bod mwyafrif ein gweithgareddau gwirfoddoli a'n digwyddiadau ar y rhaglen wedi'u gohirio am y dyfodol rhagweladwy.

Byddwn yn sicrhau bod ein rhestr o ddigwyddiadau ar ein gwefan yn cael ei diweddarau mor aml â phosib, ac rydyn ni'n gobeithio aildechrau pan fydd hynny'n bosib. Cadwch lygad yn rheolaidd! Fe fyddwn ni'n dal i ddiweddarau ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, yn parhau i gyhoeddi *Wythnos Wyllt* ac yn rhannu gweithgareddau hwyliog ac ysgogol i deuluoedd.

Cadwch yn agos at natur

Mae ein 36 o warchodfeydd natur ar agor o hyd ac yn darparu llefydd rhagorol i ymlacio a mwynhau awyr iach yn bell oddi wrth unrhyw dorf. Yn ystod y cyfnod anodd yma, mae'n bwysicach nag erioed cynnal cysylltiad â byd natur. Mae *bywyd gwyllt* yn dal ati wedi'r cwbl.